# Cod Ofcom ar Wasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu

Diweddarwyd ddiwethaf: 15 Ebrill 2024

# Cynnwys

## Adran


1. Rhagarweiniad ..... 3
2. Cefndir Cyfreithiol ..... 4
3. Diffiniadau ..... 5
4. Targedau ..... 7
5. Eithriadau a gofynion eraill ..... 9
6. Codi Ymwybyddiaeth ..... 14
7. Amserlennu ..... 15
8. Y broses ar gyfer pennu gofynion ..... 16

A1. Trothwyon iaith arwyddion a chyfran y gynulleidfa ..... 18

A2. Canllawiau i ddarlledwyr ar sianeli sydd â chynulleidfaoedd llai ar drefniadau eraill ar gyfer iaith arwyddion ..... 20

# 1. Rhagarweiniad

1.1 Mae'r Cod hwn ar Wasanaethau Mynediad ar gyfer Teledu ("y Cod") yn nodi'r canllawiau a'r gofynion ar gyfer isdeitlo, iaith arwyddion a disgrifiadau sain ('gwasanaethau mynediad teledu') sy'n berthnasol i wasanaethau teledu sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom[1].

1.2 Mae'r Cod yn berthnasol beth bynnag fo'r dull darparu[2], i bob sianel gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig, unrhyw wasanaethau rhaglenni teledu digidol (DPS) a ddarperir gan Awdurdod Cymru (gan gynnwys S4C Digidol), gwasanaethau rhaglenni teledu digidol (DTPS), gwasanaethau cynnwys trwyddedadwy teledu (TLCS), a gwasanaethau teledu cyfyngedig. Mae'r Cod hefyd yn berthnasol i Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y BBC yn y DU [3], ni waeth sut mae'n cael ei ddarparu.

1.3 Mae Ofcom yn diweddaru'r rhestr o sianeli sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau mynediad yn flynyddol yn seiliedig ar yr egwyddorion sydd wedi'u nodi yn y Cod hwn. Mae'r rhestr ar gael ar wefan Ofcom.

1.4 Nid yw'r Cod yn berthnasol i gyfeiryddion rhaglenni electronig a ddarperir dan drwydded TLCS neu DPS[4], nac i unrhyw wasanaeth sy'n cynnwys telesiopa neu fathau eraill o hysbysebu yn unig[5].

1.5 Mae'r targedau penodol sy'n berthnasol i bob sianel ar gael yn yr adroddiadau cyfnodol diweddaraf a gyhoeddwyd gan Ofcom.

1.6 Dylai darlledwyr hefyd ystyried canllawiau arferion gorau Ofcom wrth ddarparu gwasanaethau mynediad.

1.7 Mae Ofcom yn cydnabod bod rhai darlledwyr eisoes yn darparu gwasanaethau mynediad teledu yn wirfoddol, ac yn annog darlledwyr i wneud hynny lle bo hynny'n bosibl, ac i ystyried rhannau perthnasol o'r cod a'r canllawiau.

---

[1] Trwyddedir yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Darlledu 1996 neu Ddeddf Darlledu 1990.
[2] Bydd y gofynion yn ymestyn i ddarpariaeth ar-lein os oes modd cael gafael ar y gwasanaeth ar-lein drwy ganllaw rhaglenni electronig wedi'i reoleiddio. Gweler Adran 211 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
[3] Diffiniwyd yn Erthygl 75 yng Nghytundeb y BBC.
[4] Mae Cod Ymarfer Ofcom ar gyfeiryddion rhaglenni electronig yn nodi arferion hygyrchedd i'w dilyn gan ddarparwyr cyfeiryddion rhaglenni electronig ('EPG")'.
[5] Mae hysbysebu wedi'i eithrio o'r diffiniad o 'raglen' o dan adran 303 o'r Ddeddf.

# 2. Cefndir Cyfreithiol

2.1 Mae adran 303 i 305 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (“y Ddeddf”) yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom lunio’r Cod hwn, gan roi arweiniad ar i ba raddau y dylai gwasanaethau teledu trwyddedig hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o raglenni gan bobl ag anableddau, ac yn enwedig pobl sy’n fyddar neu’n drwm eu clyw a/neu bobl sy’n ddall neu’n rhannol ddall. Mae’r cod hwn yn cyfeirio at y bobl hyn fel pobl anabl[6] a phobl sy’n colli eu golwg, pobl ddall a phobl sy’n colli eu clyw a phobl f/Fyddar. Dylai’r cod hefyd roi arweiniad ar y modd y dylid hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o’r fath. Mae’n rhaid i Ofcom adolygu a diwygio’r cod canllawiau o bryd i’w gilydd.

2.2 O dan y Ddeddf, rhaid i’r Cod hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer sicrhau bod darlledwyr yn sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael i’r rheini sy’n debygol o fod eisiau defnyddio’r cymorth y maent yn ei ddarparu. Nodir y gofynion perthnasol yn Codi Ymwybyddiaeth.

2.3 Rhaid i’r Cod gynnwys darpariaeth sy’n annog darlledwyr i ddatblygu cynlluniau gweithredu hygyrchedd a mynnu bod Ofcom yn cael gwybod am gynlluniau gweithredu o’r fath.

2.4 Rhaid i’r Cod hefyd gynnwys darpariaeth sy’n mynnu bod darlledwyr yn adrodd yn flynyddol i Ofcom ynghylch hygyrchedd gwasanaethau perthnasol i bobl ag anableddau.

## Cefndir Cyfreithiol y BBC

2.5 Mae Cytundeb y BBC yn mynnu bod y BBC yn cadw at god sy’n rhoi arweiniad ynghylch i ba raddau y dylai ei Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o raglenni gan bobl sydd â nam ar eu golwg a/neu ar eu clyw, a sut y dylid hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o’r fath. Mae’r Cod hwn yn cynnwys canllawiau perthnasol ynglŷn â rhaglenni sydd wedi’u cynnwys yng Ngwasanaethau Teledu Cyhoeddus y BBC yn y DU y mae’n rhaid i’r BBC eu dilyn[7].

2.6 O dan Gytundeb y BBC, rhaid i’r cod y mae’n rhaid i’r BBC ei ddilyn hefyd sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu i’r rheini sydd angen gwasanaethau mynediad, fel y disgrifir ynglŷn â darlledwyr eraill yn 2.2.

[6] Mae hyn yn adlewyrchu’r “model cymdeithasol” o anabledd.

[7] Mae Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU yn golygu’r gwasanaethau sydd wedi’u cynnwys ar y rhestr a gynhelir ac a gyhoeddwyd gan y BBC o dan Ran 1 Atodlen 1 i’r Cytundeb, fel y caiff ei haddasu gan y BBC o bryd i'w gilydd. Gallai newid Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn sylweddol olygu y byddai angen diwygio'r rhestr. Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU yw’r Gwasanaethau Cyhoeddus hynny yn y DU sy’n cynnwys gwasanaethau rhaglenni teledu.

# 3. Diffiniadau

3.1 Yn y cod hwn:

a) mae ‘isdeitlau’ yn cyfeirio at destun ar y sgrin sy’n cynrychioli effeithiau lleferydd a sain wedi’u cysoni mor agos â phosibl i’r sain, sy’n addas i’w ddefnyddio gan bobl sy’n colli eu clyw a phobl f/Fyddar.

b) mae ‘disgrifiadau sain’ yn sylwebaeth sain ychwanegol sy’n disgrifio’r hyn sy’n digwydd ar y sgrin, yn bennaf ar gyfer pobl sy’n colli eu golwg a phobl ddall.

c) ‘iaith arwyddion’ yw pan fydd rhaglenni’n cael eu cyfieithu i iaith arwyddion neu’n cael eu cyflwyno mewn iaith arwyddion (gweler ‘dehongliad mewn iaith arwyddion’ a hefyd ‘cyflwyno iaith arwyddion’). Mae iaith arwyddion yn golygu defnyddio ystumiau â llaw, mynegiant wyneb ac iaith corff i gyfleu ystyr. Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yw’r iaith arwyddion sy’n cael ei defnyddio amlaf yn y Deyrnas Unedig ac mae’n iaith unigryw gyda chystrawen a geirfa wahanol i’r Saesneg.[8].

d) ystyr ‘dehongliad mewn iaith arwyddion’ yw pan fydd rhaglen yn cael ei chynhyrchu’n wreiddiol heb iaith arwyddion a phan fydd arwyddwr yn cael ei osod ar y rhaglen, fel arfer yng nghornel y sgrin.

e) ‘cyflwyniad mewn iaith arwyddion’ yw pan fydd rhaglen yn cael ei chyflwyno mewn iaith arwyddion.

f) ystyr ‘darlledwr domestig’ yw darparwr gwasanaeth rhaglenni teledu sydd wedi’i fwriadu’n bennaf ar gyfer derbyniad gan aelodau o’r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig. Rydyn ni'n galw’r gwasanaethau rhaglenni teledu hyn yn ‘sianeli domestig’;

g) ystyr ‘darlledwr annomestig’ yw darparwr gwasanaeth rhaglenni teledu sydd wedi’i fwriadu’n bennaf ar gyfer derbyniad gan aelodau o’r cyhoedd mewn gwledydd sy’n rhan o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol (“yr ECTT”) ac eithrio’r Deyrnas Unedig. Rydyn ni'n galw’r gwasanaethau rhaglenni teledu hyn yn ‘sianeli annomestig’

h) Y ‘dyddiad perthnasol’ at ddibenion pennu rhwymedigaethau’r gwasanaeth mynediad yw 29 Rhagfyr 2003[9] ar gyfer sianeli domestig ac 1 Ionawr 2013[10] ar gyfer sianeli annomestig ar gyfer gwasanaethau sy’n dechrau cyn y dyddiadau hyn. Ar gyfer gwasanaethau sy'n dechrau ar ôl y dyddiadau hyn, y dyddiad perthnasol yw'r dyddiad y dechreuodd y ddarpariaeth o'r gwasanaeth. Mae’r dyddiad perthnasol yn wahanol ar gyfer y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus[11]. Caiff Ofcom benderfynu y dylid trin

[8] Mae Deddf Iaith Arwyddion Prydain 2022 yn cydnabod Iaith Arwyddion Prydain fel iaith yng Nghymru, Lloegr a’r Alban. Mae Iaith Arwyddion Prydain ac Iaith Arwyddion Iwerddon yn cael eu defnyddio’n aml yng Ngogledd Iwerddon.

[9] Y dyddiad y daeth y ddeddfwriaeth i rym gyntaf.

[10] Dyma’r dyddiad y daeth gofynion gwasanaeth mynediad i rym am y tro cyntaf ar gyfer sianeli annomestig. Gweler ein datganiad

[11] Mae gan BBC 1 a BBC 2 ddyddiad perthnasol o 1 Ionawr 1997. Fel y nodir yn y Ddeddf, mae gan Channel 3,4 ac S4C Digidol ddyddiad perthnasol sef 1 Ionawr 2000, ac mae gan Channel 5 ddyddiad perthnasol sef 1 Ionawr 1998.

gwasanaeth teledu fel parhad gwasanaeth blaenorol mewn amgylchiadau lle mae natur y gwasanaeth wedi aros yr un fath yn sylweddol.

i) mae 'cyfran y gynulleidfa ar gyfartaledd' yn golygu cyfran y gynulleidfa dros flwyddyn mewn gwlad benodol lle mae'r gwasanaeth yn cael ei dderbyn;

j) mae 'sianeli â chyfrannau cynulleidfa llai' yn golygu bod sianeli sydd â chyfran cynulleidfa gyfartalog yn uwch na'r trothwy cyfran cynulleidfa perthnasol ond yn is na'r trothwy perthnasol ar gyfer iaith arwyddion a nodir yn **Error! Bookmark not defined.** yn y Cod. Mae'r sianeli hyn wedi'u heithrio o'r targedau arwyddo statudol a nodir yn Nhabl 1 y Cod hwn, ac yn hytrach maent yn ddarostyngedig i ofynion gwahanol ar gyfer arwyddo fel yr esbonnir ym mharagraffau 5.5 i 5.10.

# 4. Targedau

4.1 Mae'r adran hon yn nodi'r targedau statudol ar gyfer darlledwyr, ynghyd â thargedau interim a bennir gan Ofcom. Dylai darlledwyr hefyd edrych ar Eithriadau a gofynion eraill i gael canllawiau ar raglenni a gwasanaethau sydd wedi'u heithrio o'r targedau llawn a nodir yma, a'r gofynion eraill a allai fod yn berthnasol.

4.2 Mae'r Ddeddf yn nodi targedau deng mlynedd ar gyfer isdeitlo, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion (80%, 10%, 5%), yn ogystal â thargedau pum mlynedd ar gyfer isdeitlo (60%). Mae'r Ddeddf yn pennu targedau isdeitlo deg mlynedd uwch ar gyfer Channel 3 a Channel 4 nag ar gyfer darlledwyr eraill (90%). Yn unol â Chytundeb y BBC, mae'n rhaid i Sianeli'r BBC gyrraedd targedau isdeitlau uchaf yr holl ddarlledwyr (100%)[12]. Mae'r targedau hyn, ynghyd â thargedau interim Ofcom, wedi'u cynnwys yn Nhabl 1 isod.

4.3 Dylid dehongli'r targedau fel canrannau o oriau rhaglenni mewn blwyddyn, gan gynnwys yr holl raglenni ar wahân i hysbysebion[13] a rhaglenni sydd wedi'u heithrio drwy gyfeirio at y ffactorau a nodir yn Eithriadau a gofynion eraill.

4.4 Mae'r targedau'n berthnasol i wasanaeth ni waeth beth yw'r dull cyflwyno. Dylai'r gwasanaeth eu bodloni ar bob llwyfan darparu lle mae'n cael ei reoleiddio[14] (a lle nad oes eithriadau) ac ni ddylid eu cyfrifo fel cyfartaledd ar draws yr holl lwyfannau darparu.

4.5 Mae'r targedau'n cynrychioli'r rhwymedigaethau sylfaenol ac maent yn weithredol ar sail dreigl o bob blwyddyn o'r dyddiad perthnasol ymlaen ar gyfer pob gwasanaeth dan sylw.

---

[12] Fel sy'n cael ei egluro yn yr adran Cefndir Cyfreithiol (adran 2), mae'r Cod hwn yn cynnwys canllawiau y mae'n rhaid i'r BBC eu dilyn wrth ddarparu ei Sianeli Teledu Cyhoeddus yn y DU, yn unol â Chytundeb y BBC.
[13] Mae Adran 405 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn darparu bod 'rhaglen' yn cynnwys hysbyseb ac, ynglŷn â gwasanaeth, unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn y gwasanaeth hwnnw. Mae adran 303(13) yn eithrio hysbysebion o ystyr rhaglen at ddiben yr adran honno.
[14] Mae gwasanaethau darlledu yn cael eu rheoleiddio pan fyddant ar gael drwy Amserlen Rhaglenni Electronig (EPG) sy'n cael ei reoleiddio neu wedi'u lleoli yn y DU ac yn darlledu i wlad sy'n rhan o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol.

**Tabl 1: Targedau gwasanaethau mynediad ar gyfer sianeli nad ydynt wedi'u heithrio neu sy'n destun gofynion eraill**

| Nod i'w gyflawni fesul blwyddyn | Isdeitlo | Disgrifiadau Sain | Iaith arwyddion (dehongliad iaith arwyddion a/neu gyflwyniad mewn iaith arwyddion) |
|---|---|---|---|
| Cyntaf | 10% | 2% | 1% |
| Ail | 10% | 4% | 1% |
| Trydydd | 35% | 6% | 2% |
| Pedwerydd | 35% | 8% | 2% |
| Pumed | 60% | 10% | 3% |
| Chweched | 60% | 10% | 3% |
| Seithfed | 70% | 10% | 4% |
| Wythfed | 70% | 10% | 4% |
| Nawfed | 70% | 10% | 4% |
| O'r degfed blwyddyn ymlaen | Channel 3 a Channel 4:90%<br>Sianeli'r BBC:100%<br>Pob sianel arall: 80% | 10% | 5% |

## Safonau Ansawdd

4.6 Er bod Ofcom yn agored i ddefnyddio gwahanol dechnolegau i ddarparu gwasanaethau mynediad, mae angen i ddarlledwyr sicrhau bod eu gwasanaethau mynediad o ansawdd digon uchel er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn effeithiol o ran cyfrannu at hygyrchedd eu rhaglenni.

4.7 Bydd Ofcom yn ystyried a yw gwasanaethau mynediad o ansawdd digonol fesul achos ac yn ystyried ffactorau amrywiol i asesu hyn, gan gynnwys:

- Ar gyfer isdeitlau: cywirdeb, cydamseredd, ansawdd darllenadwy, dull cyflwyno a disgrifiad o wybodaeth nad yw ar lafar. Byddwn hefyd yn ystyried a yw'r rhaglenni'n fyw neu wedi'u recordio ymlaen llaw.
- Ar gyfer disgrifiadau sain: cywirdeb, eglurder a pha mor hawdd yw clywed
- Ar gyfer iaith arwyddion: cywirdeb, cydamseredd, a gweledEdd

4.8 Rydyn ni hefyd yn annog darlledwyr i ystyried ein canllawiau arferion gorau, sy'n rhoi rhagor o arweiniad ar sut gall darlledwyr hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad pobl anabl o'u rhaglenni.

# 5. Eithriadau a gofynion eraill

5.1 O dan y Ddeddf, gall Ofcom eithrio rhaglenni neu wasanaethau penodol o'r targedau statudol a chymhwyso gofynion gwahanol i raglenni/gwasanaethau sydd wedi'u heithrio.

5.2 Caiff Ofcom eithrio rhaglenni a gwasanaethau gan roi sylw, yn benodol, i:

a) maint y budd a fyddai'n cael ei roi drwy ddarparu'r cymorth i bobl anabl ynglŷn â'r rhaglenni;
b) maint y gynulleidfa darged ar gyfer y rhaglenni;
c) nifer y bobl fyddai'n debygol o elwa o'r cymorth a maint y budd tebygol ym mhob achos;
d) i ba raddau y mae aelodau o'r gynulleidfa a fwriedir ar gyfer y rhaglenni yn preswylio mewn mannau y tu allan i'r Deyrnas Unedig;
e) yr anhawster technegol o ddarparu'r cymorth; a hefyd
f) y gost, yng nghyd-destun y materion a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (d), o ddarparu'r cymorth.

5.3 O ystyried y ffactorau hyn, rydyn ni'n nodi canllawiau isod ar sut mae Ofcom yn eithrio rhaglenni a gwasanaethau o'r targedau statudol llawn, a'r gofynion eraill a allai fod yn berthnasol i raglenni/gwasanaethau sydd wedi'u heithrio. Bydd Ofcom yn defnyddio'r un canllawiau, fel sy'n berthnasol, ar waharddiadau a gofynion eraill sy'n ymwneud â Sianeli Teledu Cyhoeddus y BBC yn y DU.[15].

## Budd i'r gynulleidfa

### Eithrio rhag darparu unrhyw wasanaethau mynediad

5.4 Mae gwasanaethau teledu wedi'u heithrio rhag darparu gwasanaethau mynediad i'r teledu os yw eu cyfran o'r gwylio yn is na'r trothwy perthnasol ar gyfer cyfran y gynulleidfa. Dyma'r trothwyon perthnasol ar gyfer cyfran cynulleidfa:

a) Ar gyfer gwasanaethau teledu domestig: cyfran cynulleidfa gyfartalog (o holl aelwydydd y DU dros gyfnod o 12 mis) o 0.05%
b) Ar gyfer gwasanaethau teledu annomestig: y gyfran cynulleidfa gyfartalog (mewn cyfnod o 12 mis) a nodir yn Atodiad 1 ar gyfer y wlad berthnasol sy'n rhan o'r ECTT lle derbynnir y gwasanaeth. Mae Ofcom yn diweddaru Atodiad 1 o bryd i'w gilydd i sicrhau bod y trothwyon ar gyfer gwasanaethau annomestig yn cynrychioli nifer cyfatebol o wylwyr i drothwy domestig 0.05%.

### Gofynion Eraill ar gyfer Iaith Arwyddion

5.5 Nid yw Ofcom yn cynnwys gwasanaethau teledu o'r targedau statudol ar gyfer iaith arwyddion (yn Nhabl 1 uchod) os nad ydynt yn cyrraedd y trothwy perthnasol ar gyfer iaith arwyddion.

5.6 Dyma'r trothwyon perthnasol ar gyfer iaith arwyddion:

[15] Fel sy'n cael ei egluro yn yr adran Cefndir Cyfreithiol uchod, mae'r Cod hwn yn cynnwys canllawiau y mae'n rhaid i'r BBC eu dilyn wrth ddarparu ei Sianeli Teledu Cyhoeddus yn y DU, yn unol â Chytundeb y BBC.

a) Ar gyfer gwasanaethau teledu domestig: cyfran cynulleidfa gyfartalog (mewn cyfnod o 12 mis) o 1% o gyfanswm y gwylio ar gyfer holl sianeli'r DU gyda'i gilydd;
b) Ar gyfer gwasanaethau teledu annomestig: y gyfran cynulleidfa gyfartalog (mewn cyfnod o 12 mis) ar gyfer y wlad berthnasol sy'n rhan o'r ECTT lle derbynnir y gwasanaeth. Mae Ofcom yn diweddaru Atodiad 1 o bryd i'w gilydd i sicrhau bod y trothwyon ar gyfer gwasanaethau annomestig yn cynrychioli nifer cyfatebol o wylwyr i drothwy domestig 1%.

5.7 Bydd Ofcom yn ystyried, yng ngoleuni'r ffactorau a nodir uchod (yn 5.2), a ddylid eithrio sianeli sydd â chyfran cynulleidfa o ychydig yn fwy neu ychydig yn is na'r trothwy iaith arwyddion.

5.8 Mae Ofcom wedi pennu gofynion iaith arwyddion eraill ar gyfer sianeli teledu sydd â chyfran cynulleidfa o dan y trothwy iaith arwyddion perthnasol ond sy'n uwch na'r trothwy perthnasol ar gyfer cyfran cynulleidfa ('sianeli â chyfrannau llai o gynulleidfaoedd'), fel y nodir isod.

5.9 Caiff darlledwyr gynnig dewisiadau eraill yn lle'r trefniadau a nodir yma, a bydd Ofcom yn ystyried y rhain yng ngoleuni'r ffactorau a nodir ym mharagraff 5.2, a'r canllawiau a nodir yn Atodiad 2.

5.10 Mae Ofcom yn mynnu y dylai sianeli sydd â chyfrannau llai o gynulleidfaoedd, o ben-blwydd cyntaf y dyddiad perthnasol, ddarlledu bob mis heb fod yn llai na'r isafswm o raglenni sy'n cael eu cyflwyno drwy iaith arwyddion [16] a nodir yn Nhabl 2. Ar gyfer sianeli domestig, dylid dangos rhaglenni o'r fath rhwng 7am ac 11pm amser lleol. Bydd Ofcom yn parhau i adolygu'r gofyniad hwn.

**Tabl 2: Gofynion Cyflwyno mewn Iaith Arwyddion ar gyfer Sianeli sydd â chyfrannau llai o gynulleidfaoedd**

| Nod i'w gyflawni fesul blwyddyn | Cyntaf | Ail | Trydydd | Pedwerydd | Pumed | Chweched | Seithfed | Wythfed | Nawfed | O'r degfed blwyddy[n] ymlaen |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Munudau y mis o raglenni sy'n cael eu cyflwyno mewn iaith arwyddion | 30 | 30 | 30 | 30 | 45 | 45 | 60 | 60 | 60 | 75 |

5.11 Wrth i Ofcom gynyddu'r gofynion o ran cyflwyno mewn iaith arwyddion ar gyfer sianeli domestig gyda chyfrannau llai o gynulleidfaoedd o 1 Ionawr 2016 ymlaen, rhoddodd Ofcom

[16] Ni fydd rhaglenni sydd, ym marn Ofcom, yn cynnwys cyfran sylweddol o gynnwys â dehongliad iaith arwyddion yn cyflawni'r rhwymedigaeth hon.

drefniadau pontio ar waith ar gyfer sianeli sy'n rhedeg yn hirach er mwyn osgoi cynnydd sydyn yn eu rhwymedigaethau[17].

[17] I gael rhagor o fanylion, darllenwch ein Datganiad ar gyfer 2015.

**Tabl 3: Trefniadau pontio ar gyfer cyflwyno mewn iaith arwyddion ar gyfer sianeli domestig gyda chyfrannau cynulleidfa llai gyda dyddiad perthnasol cyn 1 Ionawr 2012**

| Blwyddyn Galendr | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Munudau y mis o raglenni sy'n cael eu cyflwyno mewn iaith arwyddion | 30 | 35 | 45 | 50 | 60 | 65 | 75 |

## Anawsterau technegol

5.12 Nid oes angen darparu gwasanaethau mynediad teledu os yw Ofcom yn fodlon y byddai hyn yn anymarferol ar sail anawsterau technegol. Gall anawsterau technegol gynnwys anawsterau sy'n gysylltiedig â'r llwyfan sy'n cael ei ddefnyddio i ddarparu'r gwasanaeth neu i ddarparu gwasanaethau mynediad ar genres neu fathau penodol o raglenni. Er enghraifft, anhawster darparu disgrifiadau sain ar wasanaethau newyddion a cherddoriaeth lle nad oes llawer o le yn y deunydd sain i ddarparu disgrifiadau sain. Bydd Ofcom yn ystyried eithriadau o ran anawsterau technegol fesul achos.

5.13 Caiff darlledwyr, os ydynt yn dymuno, ofyn am gael eu heithrio'r targedau llawn ar sail anhawster technegol (gweler ). Y broses ar gyfer pennu gofynion).

# Fforddiadwyedd

5.14 Mae Ofcom wedi amlinellu tair lefel o ddarpariaeth gwasanaeth mynediad, er mwyn osgoi costau anghymesur i ddarlledwyr. Mae tair lefel y ddarpariaeth fel a ganlyn:

| Lefel Un: | 100% o'r targedau blynyddol presennol ar gyfer isdeitlo, iaith arwyddion a disgrifiadau sain, yn ogystal ag unrhyw ofynion eraill |
|---|---|
| Lefel Dau: | 66% o'r targed blynyddol presennol ar gyfer isdeitlo, yn ogystal â 100% o'r targedau ar gyfer iaith arwyddion a disgrifiadau sain, ac unrhyw ofynion eraill |
| Lefel Tri: | 33% o'r targed blynyddol presennol ar gyfer isdeitlo, yn ogystal â 100% o'r targedau ar gyfer iaith arwyddion a disgrifiadau sain ac unrhyw ofynion eraill |

5.15 Bydd yn rhaid i ddarlledwyr nad yw eu gwasanaethau wedi'u heithrio fel arall sicrhau'r lefel uchaf o ddarpariaeth y gallant ei fforddio o fewn cyllideb sy'n cyfateb i 1% o'u 'trosiant perthnasol'[18]. Dim ond darlledwyr nad ydynt yn gallu fforddio costau Lefel Tri fydd yn cael eu heithrio o'r ddarpariaeth gwasanaeth mynediad yn gyfan gwbl ar sail fforddiadwyedd.

5.16 Ofcom sy'n pennu'r costau cyfartalog fesul awr o ddarparu rhaglenni gydag isdeitlau, iaith arwyddion a disgrifiadau sain. Wrth bennu'r costau perthnasol ar gyfer pob sianel, bydd Ofcom yn ystyried nifer yr oriau a ddarlledir bob dydd, canran yr ailddarllediadau, ac unrhyw eithriadau neu ofynion eraill a osodir yn unol â pharagraff 5.2.

[18] Fel y diffinnir yn Natganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom.

5.17 Yn achos sianeli sy'n rhannu perchnogaeth[19], bydd Ofcom yn penderfynu pa sianeli nad ydynt wedi'u heithrio fel arall ddylai ddarparu gwasanaethau mynediad teledu drwy gyfrifo cyfanswm y trosiant perthnasol ar draws yr holl wasanaethau sy'n rhannu perchnogaeth. Os yw hyn yn golygu y byddai gan bob un o'r sianeli drosiant perthnasol cyfartalog a fyddai'n eu galluogi i fodloni un o'r tair lefel ar gost o 1% neu lai o'r trosiant perthnasol cyfartalog hwnnw, bydd yn ofynnol i'r sianeli hynny ddarparu'r lefel berthnasol o wasanaethau mynediad i'r teledu. Os byddai cyfartaleddu'r trosiant perthnasol yn golygu na fyddai angen i unrhyw un o'r gwasanaethau ddarparu gwasanaethau mynediad teledu, bydd Ofcom yn asesu cymhwysedd ar sail y trosiant perthnasol unigol sydd i'w briodoli i bob gwasanaeth.

[19] At ddibenion y Cod, bydd Ofcom yn trin sianel fel un sydd â chydberchnogaeth gydag un neu fwy o sianeli eraill os yw pob sianel yn is-gwmni (o fewn ystyr Deddf Cwmnïau 1985) i gwmni daliannol cyffredin neu os ydynt yn rhannu rhiant cyffredin ar unrhyw adeg yn y gadwyn berchnogaeth sydd â buddiant mwyaf ym mhob un. Wrth benderfynu a yw sianeli'n rhannu perchnogaeth, bydd Ofcom hefyd yn ystyried ffactorau perthnasol eraill o'r math a nodir yng Nghanllawiau Ofcom ar ddiffinio rheolaeth cwmnïau cyfryngau..

# 6. Codi Ymwybyddiaeth

6.1 Mae Ofcom yn mynnu bod darparwyr gwasanaethau teledu yn codi ymwybyddiaeth o argaeledd eu gwasanaethau mynediad teledu i ddarpar ddefnyddwyr y gwasanaethau, gan gynnwys drwy ddarparu gwybodaeth gywir ac amserol i weithredwyr cyfeiryddion rhaglenni electronig (EPG) sy’n rhestru eu gwasanaethau, a thrwy ddarparu gwybodaeth debyg ar eu gwefan a’u rhestrau apiau eu hunain. Mae Ofcom wedi gosod rhwymedigaethau cyfatebol ar weithredwyr EPG drwy'r cod EPG a wnaed o dan adran 310 o'r Ddeddf. Dylai darlledwyr nodi pa raglenni sy’n cael eu hategu gan wasanaethau mynediad teledu drwy gynnwys yr acronymau safonol mewn priflythrennau ar gyfer isdeitlau (S), disgrifiadau sain (AD) ac iaith arwyddion (SL).

6.2 Bydd Ofcom hefyd yn disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau teledu ddangos eu bod yn cymryd camau effeithiol i roi cyhoeddusrwydd i ymwybyddiaeth o’u gwasanaethau mynediad teledu drwy ddulliau eraill, gan gynnwys cyhoeddiadau achlysurol ar yr awyr a gwybodaeth mewn cyhoeddiadau sydd wedi’u hanelu at bobl sy’n debygol o elwa o wasanaethau mynediad i’r teledu. Os nad yw natur y gwasanaeth mynediad wedi’i nodi’n llawn, dylid defnyddio’r byrfoddau safonol y cyfeirir atynt ym mharagraff 6.1 uchod.

6.3 Pan fydd amgylchiadau annisgwyl yn golygu nad oes gwasanaethau mynediad wedi’u hamserlennu ar gael, dylai darparwyr gwasanaethau teledu gymryd camau i sicrhau bod gwybodaeth wedi’i diweddaru’n cael ei darparu i weithredwyr EPG a bod cynulleidfaoedd yn cael gwybodaeth amserol am argaeledd drwy ddulliau priodol ac effeithiol gan gynnwys drwy ddarllediadau ar yr awyr yn ogystal â chyfathrebiadau ysgrifenedig/ar-lein, a defnyddio BSL lle bo hynny’n briodol ar gyfer y gynulleidfa yr effeithir arni[20].

[20] I gael rhagor o arweiniad, darllenwch ein Canllawiau Arfer Gorau.. Rydyn ni'n nodi bodCod Perfformiad Technegol Teledu Ofcom yn nodi bod yn rhaid i drwyddedeion Sianel 3, trwyddedai Channel 4 a thrwyddedai Channel 5 sicrhau bod presenoldeb a dibynadwyedd y gwasanaethau mynediad hynny yn cael yr un flaenoriaeth â sicrhau presenoldeb a dibynadwyedd cydrannau llun a sain y rhaglenni hynny.

# 7. Amserlennu

7.1 Mae Ofcom yn disgwyl y bydd darlledwyr fel arfer yn amserlennu rhaglenni gydag isdeitlau a disgrifiadau sain ar adegau gwylio brig ar gyfer pob sianel. Fodd bynnag, gan mai dim ond mewn fformat agored y darperir iaith arwyddion ar hyn o bryd, derbynnir efallai y bydd angen dangos rhaglenni teledu mewn iaith arwyddion y tu allan i oriau gwylio brig (yn amodol ar baragraff 5.10). Mae Ofcom yn annog darlledwyr i beidio â cheisio cyflawni eu rhwymedigaethau drwy amserlennu nifer o ailddarllediadau o raglenni, gan y bydd hyn yn tynnu oddi ar y fantais o ddarparu gwasanaethau mynediad i ddefnyddwyr.

### Cyhoeddiadau Mewn Argyfwng

7.2 Mae Adran 336 (1-3) y Ddeddf yn nodi y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol neu unrhyw un arall o Weinidogion y Goron fynnu ar unrhyw adeg bod Ofcom yn rhoi cyfarwyddyd i ddarlledwyr trwyddedig penodol i gynnwys cyhoeddiad penodol yn eu gwasanaethau. Pan fo'r cyhoeddiad hwn yn ymwneud ag argyfwng, gan gynnwys trychineb naturiol, rhaid i'r cyfarwyddyd ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth a roddir yn y cyhoeddiad gael ei darparu mewn ffordd sy'n hygyrch i bobl anabl.

7.3 Rydyn ni'n cyfeirio darlledwyr at ein canllawiau arfer gorau i gael rhagor o argymhellion ar wneud cyhoeddiadau mewn argyfwng yn hygyrch.

## Cynlluniau Gweithredu

7.4 Mae Ofcom yn annog darlledwyr i ddatblygu cynlluniau gweithredu hygyrchedd gyda'r bwriad o sicrhau bod eu gwasanaethau'n fwy hygyrch i bobl anabl yn barhaus ac yn raddol. Dylid rhoi gwybod i Ofcom am unrhyw gynlluniau gweithredu o'r fath.

7.5 Rydyn ni'n annog darlledwyr i gyfeirio at ein canllawiau arfer gorau ar gyfer argymhellion ar ddatblygu eu cynlluniau gweithredu.

# 8. Y broses ar gyfer pennu gofynion

## Asesiad Ofcom

8.1 Mae Ofcom yn cyfrifo ac yn gosod gofynion ar sail blwyddyn galendr[21]. Fodd bynnag, mae'r lefelau targed sy'n berthnasol i sianel benodol yn cael eu pennu drwy gyfeirio at 'ddyddiad perthnasol' y sianel honno (gweler Targedau).

8.2 Bob blwyddyn, bydd Ofcom yn cynnal adolygiad canol blwyddyn o gyfran y gynulleidfa a throsiant perthnasol sianeli trwyddedig, ar sail y pedwar chwarter diweddaraf y mae data cyfatebol ar gael ar eu cyfer. Bydd Ofcom yn rhoi gwybod i'r trwyddedai, os bydd Ofcom, ar sail yr adolygiad hwnnw, o'r farn bod sianel yn debygol, am y flwyddyn galendr gyfan, o fod:

a) yn ddarostyngedig i ofyniad i ddarparu gwasanaethau mynediad teledu;
b) yn ddarostyngedig i lefel wahanol o ddarpariaeth; neu
c) yn ddarostyngedig i ofynion iaith arwyddion eraill;

8.3 Bydd Ofcom hefyd yn pennu lefelau'r ddarpariaeth gwasanaeth mynediad y mae'n debygol y bydd yn rhaid i'r trwyddedai eu cyrraedd yn y flwyddyn galendr ganlynol. Nod Ofcom yw rhoi gwybod i ddarlledwyr am ganlyniad yr adolygiad canol blwyddyn erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn.

8.4 Os bydd gwasanaeth sy'n peidio â gorfod darparu gwasanaethau mynediad teledu yn adennill y lefelau o gyfran cynulleidfa a / neu refeniw cymwys a fyddai'n ddarostyngedig i'r gofyniad unwaith eto, bydd yn ofynnol i'r trwyddedai ailddechrau darparu ar y lefel briodol yn unol â dyddiad perthnasol y trwyddedai.

8.5 Ar ôl cynnal adolygiad canol blwyddyn, bydd Ofcom hefyd yn cyhoeddi datganiad cyhoeddus yn nodi pa sianeli fydd yn gorfod darparu gwasanaethau mynediad yn y flwyddyn galendr ganlynol.

8.6 Os bydd trwyddedai, ar unrhyw adeg, yn dangos i Ofcom ei fod yn fodlon y byddai parhau â rhwymedigaethau gwasanaeth mynediad yn bygwth hyfywedd ei wasanaeth, gall Ofcom leihau, atal neu derfynu'r rhwymedigaethau hynny.

## Y broses ar gyfer darlledwyr

8.7 Mae'n ofynnol i ddarlledwyr y mae'r cod hwn yn berthnasol iddynt wneud y canlynol:

a) cyflwyno ffurflenni ar eu darpariaeth gwasanaeth mynediad bob chwe mis ar gyfer y ddau chwarter blaenorol, yn y ffurf a'r fformat i'w hysbysu ar wahân gan Ofcom; a
b) creu a chadw recordiad mewn sain a llun ar ffurf sy'n dderbyniol i Ofcom ar gyfer pob rhaglen sydd wedi'i chynnwys yn y gwasanaeth am gyfnod o 60 diwrnod o ddyddiad ei darlledu, a darparu copi o'r recordiad i'w archwilio a'i atgynhyrchu ar gais Ofcom.

8.8 Gweler Atodiad 2 am y broses ar gyfer gwneud cais am drefniadau eraill ar gyfer iaith arwyddion ar gyfer sianeli gyda chyfrannau llai o gynulleidfaoedd.

[21] Mae hyn yn golygu bod Ofcom yn defnyddio'r gofynion gwasanaeth mynediad ar gyfer sianeli newydd o fis Ionawr ymlaen ar ôl blwyddyn gyntaf eu dyddiad perthnasol.

8.9 Caiff darlledwyr ofyn am gael eu gwahardd o’r targedau llawn ar sail anhawster technegol (gweler 0 Anawsterau Technegol). Dylai darlledwyr wneud hyn mor gynnar â phosibl yn y flwyddyn er mwyn rhoi amser i’w ystyried, a dim hwyrach na 1 Medi bob blwyddyn.

8.10 Mae Ofcom yn asesu cydymffurfiad darlledwyr â’r gofynion gwasanaeth mynediad perthnasol yn barhaus.

8.11 Caiff darlledwyr ofyn am gael eu heithrio o’r targedau llawn ar sail anhawster technegol. Caiff darlledwyr, os ydynt yn dymuno, ofyn am gael eu heithrio’r targedau llawn ar sail anhawster technegol (gweler Y broses ar gyfer pennu gofynion). Dylai darlledwyr wneud hyn mor gynnar â phosibl yn y flwyddyn er mwyn rhoi amser i’w ystyried, a dim hwyrach na 1 Medi bob blwyddyn.

8.12 Mae Ofcom yn asesu cydymffurfiad darlledwyr â’r gofynion gwasanaeth mynediad perthnasol yn barhaus.

## Adolygu

8.13 Mae’r cod hwn yn destun adolygiad cyfnodol.

# A1. Trothwyon iaith arwyddion a chyfran y gynulleidfa

A1.1 Mae'r atodiad hwn yn nodi'r trothwyon ar gyfer cyfran y gynulleidfa ac iaith arwyddion ar gyfer darlledwyr annomestig y mae Ofcom yn eu defnyddio i benderfynu a fydd sianeli'n cael eu heithrio o'r gofyniad i ddarparu gwasanaethau mynediad, neu'n amodol ar ofynion eraill ar gyfer iaith arwyddion (fel yr esbonnir ym mharagraff 5.4 i 0). Mae Ofcom yn diweddaru Atodiad 1 o bryd i'w gilydd i sicrhau bod y trothwyon ar gyfer gwasanaethau annomestig yn cynrychioli nifer cyfatebol o wylwyr i drothwyon ar gyfer darlledwyr domestig (0.05% trothwy cyfran y gynulleidfa ac 1% trothwy iaith arwyddion).

| Aelod-Wladwriaeth yr UE | Trothwy cyfran y gynulleidfa | Trothwy iaith arwyddion |
|---|---|---|
| Awstria | 0.39% | 7.73% |
| Gwlad Belg | 0.32% | 6.37% |
| Bwlgaria | 0.33% | 6.66% |
| Croatia | 0.55% | 10.95% |
| Cyprus | 3.35% | 66.96% |
| Gweriniaeth Tsiec | 0.28% | 5.58% |
| Denmarc | 0.72% | 14.4% |
| Estonia | 2.06% | 41.27% |
| Y Ffindir | 0.66% | 13.21% |
| Ffrainc | 0.05% | 0.91% |
| Yr Almaen | 0.03% | 0.70% |
| Gwlad Groeg | 0.21% | 4.14% |
| Hwngari | 0.23% | 4.59% |
| Gwlad yr Iâ | 23.75% | * |
| Iwerddon | 0.80% | 16.06% |
| Yr Eidal | 0.04% | 0.79% |
| Latfia | 1.71% | 34.22% |
| Lithwania | 0.95% | 19.00% |
| Lwcsembwrg | 4.83% | 96.60% |
| Malta | 5.92% | * |
| Yr Iseldiroedd | 0.21% | 4.19% |
| Norwy | 1.02% | 20.43% |

| | | |
|---|---|---|
| Gwlad Pwyl | 0.06% | 1.24% |
| Portiwgal | 0.21% | 4.16% |
| Rwmania | 0.10% | 1.90% |
| Slofacia | 0.47% | 9.46% |
| Slofenia | 1.39% | 27.78% |
| Sbaen | 0.05% | 1.10% |
| Sweden | 0.44% | 8.82% |
| Y Swistir | 0.62% | 12.30% |
| Twrci | 0.04% | 0.77% |
| Y Deyrnas Unedig | 0.05% | 1% |

***Lle mae seren yn ymddangos yn lle trothwy iaith arwyddion, byddai'r trothwy enwol yn fwy na 100% o gyfanswm y gwylio**

# A2. Canllawiau i ddarlledwyr ar sianeli sydd â chynulleidfaoedd llai ar drefniadau eraill ar gyfer iaith arwyddion

A2.1 Mae'r Atodiad hwn yn nodi canllawiau i ddarlledwyr sianeli domestig ac annomestig sydd â 'chyfrannau cynulleidfa llai' sydd wedi'u heithrio o'r targedau iaith arwyddion statudol (a nodir yn Nhabl 1). Paragraffau 5.4 i 0 egluro'r meini prawf y mae Ofcom yn eu defnyddio i ystyried bod sianeli'n 'sianeli gyda chyfrannau llai o gynulleidfaoedd' a nodi'r gofynion eraill ar gyfer iaith arwyddion sy'n berthnasol yn ddiofyn i'r sianeli hyn. Efallai y bydd darlledwyr sianeli sydd â chyfrannau llai o gynulleidfa nad ydynt yn dymuno bod yn ddarostyngedig i'r gofynion ym mharagraffau b) i 0 yn cynnig dewisiadau eraill i Ofcom a dylent ddilyn y canllawiau a nodir isod.

## Trefniadau eraill

A2.2 Nid oes rhaid i ddarlledwyr gynnig trefniadau eraill, ac nid yw'n ofynnol i Ofcom dderbyn unrhyw gynnig yn lle bodloni'r gofynion a nodir ym mharagraffau b) i 0.

A2.3 Caiff darlledwyr drafod trefniadau eraill posibl ar gyfer sianeli sydd â chyfrannau llai o gynulleidfaoedd gydag Ofcom cyn cynnig ffurfiol, ac mae Ofcom yn eu hannog i wneud hynny. Beth bynnag, er mwyn i ddarlledwyr a/neu drydydd partïon gael digon o amser i gynllunio ar gyfer rhoi trefniadau eraill ar waith, dylai darlledwyr gyflwyno cynigion ddim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn cyn eu bod yn dymuno eu rhoi ar waith. Os na fyddant yn cyflwyno cynigion erbyn y dyddiad hwn, mae'n debyg y bydd yn rhaid i ddarlledwyr weithredu'r gofynion a nodir ym mharagraffau b) i 0. Ar yr amod bod y cynigion yn cynnwys digon o wybodaeth, bydd Ofcom yn ceisio penderfynu a ddylid derbyn y trefniadau eraill arfaethedig ai peidio erbyn 31 Awst.

A2.4 Bydd Ofcom yn ystyried cynigion gan ddarlledwyr unigol neu grwpiau o ddarlledwyr ar gyfer sianeli domestig ac annomestig gyda chyfrannau llai o gynulleidfaoedd ar gyfer ffyrdd eraill o gyflawni'r amcan o sicrhau bod mwy o raglenni hygyrch [22] ar gael i ddefnyddwyr iaith arwyddion b/Byddar.

A2.5 Wrth benderfynu a ddylid derbyn y trefniadau eraill arfaethedig, bydd Ofcom yn ystyried a fyddent yn debygol o ddarparu gwell cymorth i bobl fyddar sy'n defnyddio iaith arwyddion. Bydd Ofcom yn ystyried yn benodol a fyddai'r trefniadau eraill arfaethedig yn:

i. cyfrannu at amrywiaeth o raglenni hygyrch a ddarlledir rhwng 7am ac 11pm;

ii. ymgorffori mecanweithiau effeithiol ar gyfer ystyried barn grwpiau byddar am ddewisiadau pobl fyddar ar gyfer rhaglenni hygyrch;

[22] Mae rhaglenni hygyrch yn y cyd-destun hwn yn golygu rhaglenni sydd â'r math o gymorth y mae Ofcom wedi'i ystyried yn briodol, boed hynny'n golygu cyflwyno mewn iaith arwyddion, dehongliad mewn iaith arwyddion neu isdeitlo. Yn achos y DU, mae Ofcom wedi penderfynu bod cyflwyno mewn iaith arwyddion yn ffurf ar raglenni hygyrch sy'n briodol fel arfer (gweler paragraff 1.21 o Ddatganiad 2007 Ofcom).

iii. sicrhau nad yw'r telerau mynediad i raglenni yn llai ffafriol i ddefnyddwyr iaith arwyddion na mynediad i'r sianel y cynigir trefniadau eraill ar ei chyfer;

iv. yn gyfystyr â chyfraniad ariannol blynyddol ynglŷn â phob sianel berthnasol, neu'n gyfwerth â hynny, fel y nodir yn Nhabl 4. Mae'r swm hwn yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd; a hefyd

v. ymrwymo'r darlledwr i weithredu'r trefniadau neu i gontractio gyda pharti derbyniol i weithredu'r trefniadau am gyfnod o ddim llai na dwy flynedd, yn amodol ar ddarpariaeth sy'n caniatáu i'r sianel derfynu'r trefniadau os bydd yn peidio â bod yn ddarostyngedig i rwymedigaethau gwasanaeth mynediad.

A2.6 Mae Ofcom wedi pennu lefelau blynyddol sylfaenol priodol o gyfraniad ariannol i drefniadau eraill. Mae Tabl 4 yn nodi'r lefelau hyn. Mae Ofcom yn addasu'r lefelau cyfraniad sylfaenol bob blwyddyn ar gyfer chwyddiant. Mae Ofcom yn cyhoeddi'r isafswm cyfraniadau wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant ar gyfer y flwyddyn ganlynol ar ei wefan [23] ar yr un pryd ag y mae'n cyhoeddi'r rhestr flynyddol o sianeli sy'n ofynnol i ddarparu gwasanaethau mynediad teledu yn y flwyddyn ganlynol. Ar yr un pryd, mae Ofcom yn diweddaru Tabl 4 gyda'r cyfraniadau perthnasol.

**Tabl 4: Cyfraniadau blynyddol sylfaenol i drefniadau eraill**

| Nod i'w gyflawni fesul blwyddyn | Cyfraniadau sylfaenol i drefniadau eraill yn 2023 (wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant) |
|---|---|
| Cyntaf | £27,370 |
| Ail | £27,370 |
| Trydydd | £27,370 |
| Pedwerydd | £27,370 |
| Pumed | £41,112 |
| Chweched | £41,112 |
| Seithfed | £54,853 |
| Wythfed | £54,853 |
| Nawfed | £54,853 |
| Degfed ac ar ôl hynny | £68,593 |

A2.7 Mae lefel y cyfraniad blynyddol lleiaf yn amodol ar adolygiad.

A2.8 Ni fydd yn ofynnol i ddarlledwr sydd, yn ddidwyll ac â chytundeb Ofcom, wedi'i gontractio ar gyfer y trefniadau eraill – sydd i'w gweithredu gan drydydd parti ailddechrau'r gofynion a nodir ym mharagraffau b) i 0 dros gyfnod y contract y telir amdano. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os yw'r trydydd parti yn methu â chyflawni gofynion y contract.

[23] Ewch i wefan Ofcom

## Dehongliad mewn iaith arwyddion neu Isdeitlo Ychwanegol (Darlledwyr Annomestig)

A2.9 Yn hytrach, gall darlledwyr sianeli annomestig sydd â chyfrannau llai o gynulleidfaoedd gyflwyno cynigion i gyrraedd y targedau ar gyfer dehongliad mewn iaith arwyddion neu isdeitlo ychwanegol a nodir yn Nhabl 6 isod.[24]. Wrth asesu cynigion, bydd Ofcom yn ystyried yn benodol a fyddai'n well gan ddefnyddwyr iaith arwyddion mewn gwledydd targed gael math arall o gymorth yn lle rhaglenni sy'n cael eu cyflwyno mewn iaith arwyddion.

**Tabl 6: Trefniadau Eraill ar gyfer Sianeli Annomestig gyda chyfrannau llai o gynulleidfaoedd**

| Nod i'w gyflawni fesul blwyddyn | Cyntaf | Ail | Trydydd | Pedwerydd | Pumed | Chweched | Seithfed | Wythfed | Nawfed | O'r degfed blwyddyn ymlaen |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Targedau blynyddol ar gyfer dehongliad mewn iaith arwyddion | 1% | 1% | 2% | 2% | 3% | 3% | 4% | 4% | 4% | 5% |
| Neu dargedau blynyddol ar gyfer isdeitlo ychwanegol[25] | 5% | 5% | 7.5% | 7.5% | 10% | 10% | 12.5% | 12.5% | 12.5% | 15% |

[24] Yn yr un modd â thargedau statudol (gweler paragraff 4.3), dylid dehongli'r targedau fel canrannau o oriau rhaglenni mewn blwyddyn, gan gynnwys yr holl raglenni ar wahân i hysbysebion a rhaglenni sydd wedi'u heithrio drwy gyfeirio at y ffactorau a nodir yn yr adran Eithriadau a Gofynion Eraill.

[25] Mae'r targedau hyn yn berthnasol ynghyd â'r gofynion isdeitlo a nodir yn Nhabl 1.